

Dave Street
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Tredomen
Ystrad Mynach
Caerffili
CF82 7PG

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 15 Mawrth a 19 Mawrth 2021. Pwrpas y archwiliad sicrwydd oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymateb yn rhagweithiol i heriau'r pandemig. Mae cydweithio cadarnhaol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac asiantaethau partner eraill wedi helpu i rannu'r gwaith o nodi a chydlynu cymorth gyda holl achosion oedolion a phlant yn cael eu blaenoriaethu yn unol â pha mor agored i niwed yw'r unigolion. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu gweithredol ac ymarfer ymatebol da, er enghraifft, Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig Gwent Gyfan (GWICES) yn rhannu cyfarpar diogelu personol â chartrefi gofal a darparwyr gofal lleol.

Mae'r awdurdod lleol wedi gorfod datblygu ei drefniadau gweithio ystwyth yn sylweddol er mwyn galluogi ei weithlu i weithio'n fwy hyblyg o gartref, yn ogystal â pharhau i gael llai o staff mewn swyddfeydd dynodedig.

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr awdurdod lleol wedi aros mewn cysylltiad â nhw, a hynny mewn ffordd ddiogel, drwy gydol y pandemig. Yn ôl yr angen, mae cyswllt wyneb yn wyneb diogel uniongyrchol wedi parhau, yn amodol ar asesiad risg COVID, ac mae'r staff wedi cael lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol. Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn gweithio'n greadigol gan ddefnyddio e-bost, WhatsApp a chyfarfodydd fideo fel ffyrdd o gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi darparu gliniaduron i gefnogi cyswllt â theuluoedd, cynnal sesiynau bingo rhithwir, sesiynau 'meet and munch' a the prynhawn er mwyn helpu pobl i deimlo'n llai ynysig ac ymgysylltu'n fwy â phobl.

Siaradodd pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan eu cyngorwyr personol. Gwnaethant ddweud wrthym am y cymorth ymarferol a ddarparwyd yn ystod y pandemig er mwyn iddynt barhau â'u hastudiaethau a pharhau i weithio. Nodwyd bod rhai pobl ifanc wedi codi materion ynghylch diffyg blaenoriaeth i'r rhai sy'n gadael gofal o ran ymuno â'r gofrestr dai.

Cydnabuwyd y pwysau ychwanegol ar ofalwyr yn ystod y pandemig. Gwelsom dystiolaeth o anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried yn briodol a gofalwyr yn cael

eu cefnogi ochr yn ochr â'r unigolyn a oedd yn derbyn gofal, gyda'u hanghenion yn cael eu hasesu a'u dogfennu ar wahân i anghenion yr unigolyn a oedd yn derbyn gofal. Clywsom gan ofalwyr eu bod wedi cael galwadau ffôn lles ychwanegol rheolaidd gan y gwasanaeth gofalwyr. Roedd y gwasanaethau cymdeithasol hefyd wedi gweithio'n galed i barhau i ddarparu gwasanaeth seibiant byr ond ar raddfa lai i oedolion a phlant.

Dyweddodd y darparwyr wrthym fod cydberthnasau gwaith sefydledig a chyfathrebu rhagorol o fewn yr awdurdod lleol wedi golygu bod cymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol wedi gallu cael ei ddarparu yn effeithlon. Roedd yr awdurdod lleol wedi cefnogi a galluogi darparwyr i fod yn fwy hyblyg yn ystod y pandemig i ddarparu'r hyn yr oedd ei angen ar bobl.

Ar y cyfan, gwelsom fod pobl yn cael y cyfle i leisio eu barn a bod eu dewisiadau yn cael eu parchu, gydag ymarfer yn canolbwyntio fwyfwy ar helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau a nodwyd ganddynt yn bersonol. Gwelsom rai enghreifftiau da o ddefnyddio eiriolwyr annibynnol i hwyluso llais yr unigolyn ym maes diogelu oedolion a phlant. Hefyd, gwelsom nifer o enghreifftiau lle roedd eiriolaeth anffurfiol yn cael ei hyrwyddo'n briodol.

Roedd pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, lle cynhelir asesiad yn newis iaith yr unigolyn, yn cael ei roi ar waith a'i gofnodi'n gyson. Dywedwyd wrthym hefyd am argaeledd nifer o staff sy'n hyderus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae recriwtio a chadw staff yn flaenoriaeth gritigol gydnabyddedig i'r busnes ac mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi mabwysiadu 'dull tyfu eich hun' rhagweithiol. Fel gyda llawer o awdurdodau lleol, mae recriwtio ym maes gwasanaethau plant yn parhau i fod yn arbennig o heriol, a lle mae penodiadau wedi bod yn bosibl maent wedi tueddu i fod yn weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso'n fwy diweddar. Er bod rhai staff wedi nodi bod swyddi gwag, salwch ac adnoddau gwaith cymdeithasol wedi rhoi pwysau ar rai timau, ar y cyfan gwelsom fod morâl staff yn dda ac roedd ymarferwyr yn gadarnhaol am eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt.

Dyweddodd y staff eu bod yn ymdopi â'r llwythi gwaith ond eu bod yn brysur ac yn anodd oherwydd cymhlethdod cynyddol materion. Yn gyffredinol roedd yn bosibl gweld bod rheolwyr yn goruchwyllo ymarfer mewn cofnodion. Roedd y staff yn gwerthfawrogi pa mor aml roeddent yn cael eu goruchwyllo er roedd ansawdd y cofnod goruchwyllo a welwyd yn amrywio.

Clywsom fod datblygiad y gweithlu wedi cael ei gynnal cyhyd â phosibl yn ystod y pandemig. Mae cyfleoedd hyfforddi wedi parhau gyda nifer o lwyfannau digidol yn cael eu defnyddio i alluogi staff a phartneriaid i gael hyfforddiant ar-lein. Dywedodd y staff a oedd newydd gymhwyso wrthym eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ymarfer drwy oruchwyliaeth reolaidd a threfniadau mentora sy'n cynnwys sesiynau myfyrio ddwywaith yr wythnos.

Defnyddir systemau sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau oedolion a phlant ac mae pwysigrwydd cofnodi a rhannu gwersi o archwiliadau o ffeiliau achos, ymarfer ac effaith hyfforddiant wedi'i hen sefydlu.

Er y gwelsom dystiolaeth bod safbwyntiau pobl yn cael eu casglu a bod eu dewisiadau yn cael eu parchu, roedd ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn anghyson. Nid oedd y cofnod electronig bob amser yn dangos y gwaith cadarnhaol y clywsom amdano yn ystod cyfweiliadau. Er y gwelsom rai cofnodion oedolion da a oedd yn nodi 'yr hyn sy'n bwysig' i'r unigolyn wedi'i ysgrifennu yn ei eiriau ei hun, roedd asesiadau a chynlluniau gofal yn anghyflawn. Mewn gwasanaethau plant, nid oedd ansawdd da'r wybodaeth a'r gwaith dadansoddi a welwyd yn yr asesiadau bob amser i'w weld ar ffurf cynllun gofal a chymorth perthnasol.

Mewn gwasanaethau oedolion a phlant, gwelsom enghreifftiau lle y byddai ffocws mwy amlwg ar gryfderau a chanlyniadau wedi bod yn fuddiol er mwyn creu darlun cyfannol o'r unigolyn, ac o ran hyrwyddo dealltwriaeth a pherchnogaeth a rennir o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

Mae cefnogi plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal i gyrraedd eu llawn botensial a chyflawni canlyniadau cadarnhaol yn amlwg yn uchel ar agenda'r awdurdod lleol. Clywsom fod cymorth da ym maes rhianta corfforaethol ym mhob rhan o'r cyngor. Mae cynrychiolaeth wedi cael ei chryfhau drwy gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal a gofalwyr maeth ar y Grŵp Rhianta Corfforaethol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nifer cymharol sefydlog o blant sy'n derbyn gofal. Mae gan uwch-reolwyr a swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil y plant y mae'r cyngor yn gofalu amdanynt a gwybodaeth dda amdano. Mae ymrwymiad cryf i'r agenda ataliol ac i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel. Mae fframwaith sicrwydd rhagweithiol wedi cael ei ymgorffori i gryfhau goruchwyliaeth rheolwyr ac ymarferwyr o ymarfer. Mae hyn yn cynnwys nifer o drefniadau panel wedi'u cadeirio gan gyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaethau plant a rhoi gwybodaeth am berfformiad i staff a phartneriaid. Ar adeg yr archwiliad sicrwydd hwn, roedd yr awdurdod wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal 5% ond roedd yn realistig o ran y galw anhysbys posibl am wasanaethau ar ôl y cyfyngiadau symud.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi parhau i recriwtio gofalwyr maeth yn llwyddiannus. Mae hyn wedi cynnwys 13 o ofalwyr maeth newydd y llynedd ac mae 19 o geisiadau pellach yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae'r tîm maethu wedi defnyddio amrywiaeth o fentrau megis Facebook, y radio a'r teledu i recriwtio. Roedd hyfforddiant, trefniadau goruchwyllo a phaneli rhithwir i gyd wedi helpu i sicrhau nad oedd oedi wrth sicrhau penodiadau ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn. Dywedodd gofalwyr maeth sefydledig wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed i sicrhau bod cyfathrebu da a chymorth lleoliadau yn ystod y pandemig, gan gynnwys gwaith y Tîm Cymorth Dwys i hyrwyddo gwaith cynllunio wedi'i arwain gan y teulu a mynediad gofalwyr maeth at eu gwasanaeth cymorth seicolegol eu hunain.

I bobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth, datblygir cartrefi preswyl i blant yn y sir ar hyn o bryd. Nod y fenter hon yw lleihau'r angen i leoli plant mewn cartrefi preswyl arbenigol costus y tu allan i'r sir.

Atal - Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae atal yn rhan annatod o fusnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Gwelsom ddull integredig cadarnhaol o ddatblygu diwylliant atal wedi'i brofi drwy gydweithio a phroses o gyfnewid gwybodaeth â phartneriaid gan gynnwys darparwyr trydydd sector. Ar y cyfan mae'r awdurdod lleol yn dangos dull darbodus o ddarparu gwasanaethau, gyda'i ddyraniad o adnoddau yn canolbwyntio ar roi cymorth cynnar i atal cynnydd mewn angen. Mewn ymateb i'n harolwg staff, roedd y gweithwyr yn gadarnhaol am amrywiaeth ac ansawdd yr adnoddau atal ond roeddent yn cydnabod, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, fod y cyfyngiadau o ran cyswllt wyneb yn wyneb oherwydd y pandemig wedi cael effaith andwyol ar ansawdd yr hyn a gynigir i deuluoedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu trefniadau 'drws ffrynt' a oedd yn cael eu disgrifio gan y staff fel ymatebol, cymesur, ac ag arbenigedd o ran gwasanaethau atal. Gwelsom dystiolaeth mewn cofnodion o ymarfer arloesol gyda phobl yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaeth ymyrryd yn gynnar ar yr adeg gywir.

Mewn gwasanaethau oedolion, mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol integredig a'r Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol wedi parhau â'u gwaith yn ystod y pandemig i atal derbyniadau i'r ysbyty, cefnogi'r gwaith o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gynnar, a sicrhau darpariaeth gwasanaeth ailalluogi sy'n helpu pobl i gyflawni eu nodau annibyniaeth. Mae'r tîm integredig hwn yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd megis y nyrsys eiddilwch/cyflym, ac mae ganddo gysylltiadau agos â'r gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai. Roedd yr asesiadau a welwyd yn amserol, wedi'u cynnal o bell lle bynnag y bo modd neu drwy gyswllt wyneb yn wyneb lle cynhaliwyd asesiad risg. Gwelsom dystiolaeth dda o ddarpariaeth gwasanaeth gofal cartref, gan gynnwys gwasanaeth cartref yn gyntaf, yn ogystal ag argaeledd cymhorthion a chyfarpar priodol sy'n helpu i gadw pobl yn eu cartrefi neu i ddychwelyd adref yn ddiogel. Ni nodwyd unrhyw restrau aros ar gyfer gwasanaethau cymunedol.

O fewn gwasanaethau plant, gwelsom gyfres gref iawn o wasanaethau ataliol megis Fy Nhîm Cymorth yn chwarae rôl sylweddol yn y gwaith o gefnogi'r plant mwyaf cymhleth yn y gymuned, gan gefnogi gofalwyr maeth a'r staff mewn cartrefi preswyl. Mae Safe Families wedi cael ei gomisiynu'n ddiweddar i gynnig pecynnau cymorth pwrpasol, wedi'u darparu drwy rwydwaith o wirfoddolwyr yn darparu cymorth i deuluoedd mewn argyfwng neu y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Tîm Cymorth Dwys yn gweithio gyda theuluoedd saith diwrnod yr wythnos, gan ymgymryd ag amrywiaeth o wasanaethau atal a chymorth gyda phlant, teuluoedd a gofalwyr maeth i atal cydberthnasau rhag chwalu.

Gwelsom fod y panel adnoddau a'r panel anghenion cymhleth, wedi'u cadeirio gan gyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaethau plant a gydag amrywiaeth o bartneriaid yn bresennol, yn sicrhau bod uwch-swyddog yn goruchwyllo achosion. Roedd hyn yn darparu her adeiladol ac yn cefnogi'r agenda ataliol o gadw plant gyda'u teuluoedd yn ddiogel neu eu cadw mewn lleoliad. Nodwyd bod y paneli eisoes wedi dechrau nodi ac ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n deillio o ddychweliad diweddar plant i'r ysgol yn dilyn cyfnod hir gartref. Er bod y staff yn ystyried bod trefniadau panel yn ddefnyddiol, mae angen i reolwyr sicrhau bod gweithwyr sy'n mynd i gyfarfodydd y panel yn cymryd cyfrifoldeb priodol am ddatblygu argymhellion clir ar gyfer y panel yn seiliedig ar ailasesiad o'r cynnydd.

Partneriaethau ac Integreiddio - Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ar y cyfan ac yn darparu dull cynaliadwy mwy integredig o ddiwallu anghenion a hyrwyddo llesiant, yn unol â deddfwriaeth.

Ar lefel unigol gwelsom enghreifftiau o gydberthnasau gwaith da rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau personol bob amser yn cofnodi'n gyson i ba raddau yr oedd pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Er bod staff yn gweithio tuag at ddeall amgylchiadau pobl, mae'n rhaid i farn yr unigolyn fod wrth wraidd gwaith cynllunio gofal a chael ei hadlewyrchu'n gryf yn asesiad a chynlluniau'r unigolyn.

Yn strategol, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i bartneriaid wedi ymateb i'r pandemig drwy gydweithio i gefnogi dull a rennir. Er enghraifft, addasu polisïau a gweithdrefnau gyda chydweithwyr iechyd er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er gwaethaf oedi yn ei weithgarwch yn ystod camau cychwynnol y pandemig, wedi parhau i fod yn ddylanwadol wrth lunio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol.

Cadarnhaodd cynrychiolwyr o faes iechyd, yr heddlu, addysg a'r trydydd sector fod ymrwymiad clir i gydweithio ledled Caerffili. Yn ystod y cyfweiliadau, dywedodd partneriaid wrthym am waith partneriaeth cryf gyda'r awdurdod lleol wrth ddatblygu'r Hwb Diogelu amlasiantaethol newydd. Aeth Hwb Caerffili yn fyw ym mis Ionawr 2021, a gwelsom fod hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar waith casglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg. Mae cynlluniau ar waith i wella ymateb yr hwb diogelu i blant sydd ar goll a'r rhai sydd mewn perygl o gamfanteisio. Mae'r defnydd cynyddol o lwyfannau digidol hefyd wedi golygu bod asiantaethau yn cyfrannu at drafodaethau strategol a chyfarfodydd statudol mewn ffordd fwy effeithiol.

Dywedodd staff gwasanaethau cymdeithasol wrthym hefyd fod y cydberthnasau gwaith gwell â chydweithwyr addysg, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd, yn

hwyluso dealltwriaeth well ac ymateb ystwyth i anghenion cymorth newidiol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Dywedodd rheolwyr a staff gwaith cymdeithasol wrthym am heriau cefnogi anghenion emosiynol plant a chlywsom adborth cymysg am argaeledd amserol gwasanaethau cymorth therapiwtig ac emosiynol wyneb yn wyneb.

Siaradodd darparwyr yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Roeddent yn gwerthfawrogi'r lefel o gyfathrebu ac ansawdd y cyngor a'r cymorth a gafwyd gan gomisiynwyr awdurdodau lleol a Thimau Adnoddau Cymunedol gan gynnwys, er enghraifft, y defnydd hyblyg o staffio ac adnoddau i helpu i gynnal darpariaeth o fewn y sector preswyl.

Ar y cyfan, gwelsom ymrwymiad a rennir cadarnhaol a phwyslais cynyddol ar gydweithio rhwng yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner ar lefel weithredol ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.

Llesiant - Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

O'r sampl o ffeiliau achosion a welsom, nodwyd y gallai pobl Caerffili fod yn sicr bod eu diogelwch yn cael ei hybu. Roedd ffocws ar ddiogelu ac roedd partneriaid yn dangos dealltwriaeth gyffredin o'r gweithdrefnau newydd.

Mewn gwasanaethau plant gwelsom yr ymatebir i'r rhan fwyaf o bryderon diogelu yn brydlon yn unol â gofynion statudol. O'r trefniadau a welsom, yn enwedig trafodaethau strategol, roedd y rhain yn amserol ac yn cael eu cefnogi'n dda gan asiantaethau partner, a oedd yn arwain at ymholiadau effeithiol. Nodwyd o fis Ionawr 2021 fod cyfranogiad iechyd at drafodaethau strategol yn helpu i sicrhau dull mwy cyfannol o rannu gwybodaeth.

Mewn gwasanaethau oedolion nodwyd bod y gwaith o ddadansoddi risgiau yn dda, bod y broses o wneud penderfyniadau yn dda, bod cynlluniau amddiffyn ar waith, a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn ôl yr angen. Clywsom gan bartneriaid fod y Tîm Diogelu yn gweithio'n dda gyda phobl o bob rhan o'r sector. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio da rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r trydydd sector, gan weithio gyda phobl yn uniongyrchol i gyflawni eu canlyniadau diogelwch.

Roedd ymwybyddiaeth ac ymarfer staff i bennu a oes gan bobl y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol, a gwneud penderfyniadau budd pennaf ar eu rhan lle y bo angen, yn cael eu hadlewyrchu mewn cofnodion ac roedd y sampl o asesiadau a welwyd o ansawdd da.

Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn amlwg ym maes diogelu oedolion a phlant. Fodd bynnag, nid oedd y lefel o her broffesiynol a ddarparwyd yn cael ei chefnogi'n dda yn gyson. Roedd staff mewn gwasanaethau plant yn amlwg yn gwerthfawrogi'r model asesu risg a'r hyfforddiant cysylltiedig (model Bruce Thornton), ond nid oeddent bob amser yn gallu mynegi pryd y byddent yn defnyddio'r dull.

Tynnodd ymarfer diogelu mewn gwasanaethau plant sylw at ychydig o amrywiaeth mewn ymarfer. Er bod yr enghreifftiau o ffeiliau achosion gorau yn dangos ymatebion amserol cynnar gyda gwybodaeth yn cael ei chasglu'n brydlon er mwyn helpu i lywio gwaith cynllunio a oedd yn mynd i'r afael â phryderon amddiffyn plant. Mewn achosion eraill a welwyd, roedd ansawdd yr ymateb, gan gynnwys y cynlluniau diogelwch amlasiantaethol dilynol, yn llai gweladwy, er enghraifft, nid oedd ffactorau hanesyddol bob amser yn cael eu hystyried yn ddigonol fel dangosyddion posibl o risg. Nodwyd gwaith gwerthuso a dadansoddi risg a phrosesau cynllunio diogelwch mewn perthynas ag esgeulustod a chamdriniaeth ddomestig fel maes penodol i'w wella. Mae'n gadarnhaol bod yr awdurdod lleol eisoes wedi nodi hyn fel mater ymarfer mewn perthynas â chyfraddau ailatgyfeirio ac mae'n bwysig bod cynlluniau yn cael eu datblygu i werthuso a mynd i'r afael â hyn yn llawn.

Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofawyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys chwe pherson ifanc a oedd wedi gadael gofal
- gwnaethom fwrw golwg dros 34 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal 10 o gyfweiliadau olrhain achosion â staff
- gwnaethom gynnal arolwg i bobl a oedd â phrofiad o ofal a chymorth, darparwyd, sefydliadau trydydd sector, staff, yr heddlu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- aethom i gyfarfod o'r Panel Adnoddau ac Anghenion Cymhleth
- gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o'r heddlu, yr adran addysg, iechyd a'r trydydd sector

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru